



Loops & Links / Trail 19
Cylchdeithiau a Dolenni / LLwybr 19

THE BRIARS BRIDLEWAYS TRAIL

Dare Valley Country Park (Aberdare) to Barry sidings Countryside Park (Pontypridd)
OFF-ROAD and ON-ROAD approximately 14 miles

LLWYBR CEFFYLAU BRIARS

Parc Gwledig Cwm Dâr (Aberdâr)
I Barc Gwledig Barry sidings (Pontypridd)
ODDI AR Y FFORDD ac AR Y FFORDD oddeutu 14 milltir

ALSO SUITABLE FOR WALKERS AND MOUNTAIN BIKERS
HEFYD YN ADDAS AR GYFER CERDDWYR A BEICWYR MYNYDD



The Briars Bridleways Trail is a route for horses between the visitor centres of Dare Valley Country Park and Barry Sidings Countryside Park in the South Wales Valleys. The majority of the trail passes through the St Gwynno Forest area taking in stunning valley views and peaceful countryside. It also passes a number of heritage sites and sites of interest, including a Roman fort and medieval dykes along the way.

LLwybr i geffylau rhwng canolfannau ymwelwyr Parc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Gwledig Barry Sidings yng nghymoedd de Cymru yw Llwybr Ceffylau Briars. Mae rhan helaeth y llwybr yn ardal Coedwig St Gwynno ac yn cynnig golygfeydd godidog o'r cymoedd ac o gefn gwlad llonydd. Mae'r llwybr hefyd yn ymweld â nifer o safleoedd treftadaeth a safleoedd o ddi-ddordeb, gan gynnwys caer Rufeinig ac argae o'r Oesoedd Canol ar hyd y ffordd.

> Trail Information / Gwybodaeth Am Y Llwybr

The trail is approximately 14 miles in total and is mostly off road, using bridleways and forest roads, although there is some highway riding to link together the off road sections. The route is fully way marked from start to finish.

Ample parking is available at both Dare Valley Country Park and Barry Sidings Countryside Park. There are also train stations at Aberdare, Porth and Pontypridd from where you can access the trail if walking or mountain biking. Further information on walking the trail can be accessed from the main Loops and Links guidebook.

For further information suggested maps are:
Ordnance Survey Landranger 170 / Explorer 166

Mae'r llwybr, sydd oddeutu 14 milltir o hyd, yn bennaf oddi ar y ffordd ac yn defnyddio llwybrau ceffylau a ffyrdd coedwig, er bod rhaid marchogaeth ar y ffordd mewn rhai manau. Mae arwyddion llawn ar y llwybr o'r dechrau i'r diwedd.

Mae digon o le i barcio ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Gwledig Barry Sidings. Yn ogystal, mae yna orsafoedd tren yn Aberdâr, Porth a Phontypridd, ac mae modd cyrraedd y llwybr o'r llefydd hynny. Mae mwy o wybodaeth am gerdded y llwybr ar gael o'r prif lawlyfr cylchdeithiau a dolenni.

Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at y mapiau isod:
Arolwg Ordnans Landranger 170 / Explorer 166

Attractions Along The Trail Atyniadau Ar Hyd Y Llwybr

> Dare Valley Country Park / Parc Coedwig Cwm Dâr

Dare Valley offers visitors all of the classic features of a South Wales mining valley. Here you will find a spectacular glacial cwm at the head of the valley (with peat bogs above), alder woodlands, rhos pastures, old coal tips and remodelled coal waste, conifer plantations and classic mining villages.

Dare Valley Country Park was developed 35 years ago on the site of two former collieries in Dare Valley, Aberdare and provides excellent example of post-industrial biodiversity including some of the oldest-established remediation areas for public use in South Wales.

Dare Valley Country Park offers accommodation and a visitor centre with cafe

Mae Cwm Dâr yn cynnwys holl nodweddion arferol dyffryn glofaol yn ne Cymru. Mae yna gwm rhewlifol mawreddog ar ben y dyffryn (gyda chorsydd mawnog uwch ei ben), coetiroedd gwern, tiroedd pori rhos, hen domenni glo a gwastraff glo wedi'i ailfodelu, planhigfeydd coed conwydd a phentrefi glofaol nodweddiadol.

Datblygwyd Parc Gwledig Cwm Dâr 35 o flynyddoedd yn ôl ar safle dau hen bwl glo yng Nghwm Dâr, Aberdâr ac mae'n darparu enghraifft ardderchog o fioamrywiaeth ôl-ddiwydiannol, gan gynnwys rhai o ardaloedd adfer hynaf de Cymru sydd ar agor i'r cyhoedd.

Mae parc gwledig Dyffryn Dare ym cynnig llety a canolfan ymwelwyr gyda cafe.

> Barry Sidings Countryside Park Parc Gwledig Barry Sidings

Barry Sidings is an attractive park of approximately 3.5 hectares. Located on the main B4753 close to Trehafod, it was developed during the late 1980s on the original railway sidings where, in the past, coal was loaded from the Rhondda pits to be transported down to the port of Barry. Situated on the lower slopes of the Mynydd Gelliwion, the park stretches for about 1.5 kilometres along the southern bank of the river Rhondda. There is a visitor centre, public toilets and there is ample and easily accessed car parking.

Mae Barry Sidings yn barc deniadol oddeutu 3.5 hectar o faint. Cafodd y parc, sydd wedi'i leoli ar ffordd y B4753 yn agos at Drehafoed, ei ddatblygu yn ystod y 1980au ar y cilffyrdd rheilffordd gwreiddiol a gafodd eu defnyddio yn y gorffennol i gludo glo o weithfeydd y Rhondda i borthladd y Barri. Mae'r parc, sydd wedi'i leoli ar lethrau Mynydd Gelliwion, yn ymestyn oddeutu 1.5 cilomedr ar hyd llethrau deheuol afon Rhondda. Mae yna ganolfan ymwelwyr, tai bach cyhoeddus a digon o le i barcio.

For other accommodation, please visit the Destination RCT website – www.tourism.rctcbc.gov.uk
Achos arall le, blesio gofwy a'r Ben Taith RCT – www.tourism.rctcbc.gov.uk



Dare Valley Country Park



Barry Sidings Country Park

Accommodation / Refreshments Llety / Lluniaeth

Visit The Brynffynon Hotel at Llanwonno, located on this trail, which offers refreshments and accommodation. Please contact them on 01443 790272 or www.brynffynonhotel.com for further information.

Mae Gwesty Brynffynon yn Llanwonno, sydd wedi'i leoli ger y llwybr, yn cynnig lluniaeth a llety. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r gwesty ar 01443 790272 neu www.brynffynonhotel.com.

The Green Meadow Riding Centre also offers accommodation, please use the contact details below.

Mae Canolfan Farchogaeth Green Meadow yn cynnig llety hefyd. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod.



> Livery / Stablau

For livery or other horse related enquiries please try one of the contacts below.

Cysylltwch ag un o'r sefydliadau isod os oes gennych ymholiad ynghylch stablau neu geffylau yn gyffredinol:

Green Meadow Riding Centre
Located close to Dare Valley Country Park - T: 01685 874 961
www.netupandgo.com/greenmeadow

Canolfan Farchogaeth Green Meadow
Wedi'i lleoli yn agos at Barc Gwledig Cwm Dâr - F: 01685 874 961
www.netupandgo.com/greenmeadow

Llwyncelyn Farm
Near to Porth and Barry Sidings Countryside Park - T: 01443 682 127
www.llwyncelynfarm.co.uk

Fferm Llwyncelyn
Ger Porth a Pharc Gwledig Barry Sidings - F: 01443 682127
www.llwyncelynfarm.co.uk



> Important Information / Gwybodaeth Bwysig

Horses are only allowed on the designated trail at Barry Sidings Countryside Park. Please keep all horses off the grass and away from the visitor centre. On no account are horses to leave the designated trail into the Park area.

Gellir marchogaeth ceffylau ar hyd y llwybr penodedig ym Mharc Gwledig Barry Sidings yn unig. Rhaid cadw pob ceffyl oddi ar y glaswellt ac i ffwrdd o'r Ganolfan Ymwelwyr. Ni ddylai'r ceffylau adael y llwybr penodedig a chrwydro yn y Parc.

Please clear up any horse manure from the car park areas of Dare Valley Country Park and Barry Sidings Countryside Park.

Rhaid clirio unrhyw dail ceffylau o feysydd parcio Parc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Gwledig Barry Sidings.

Much of the trail crosses Forestry Commission Wales land. These are working forests and forestry operations maybe taking place. Please obey all safety signage.

Mae rhan helaeth o'r llwybr ar dir Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'r rhain yn goedwigoedd ymarferol ac mae yna bosibilrwydd y bydd gwaith coedwigol yn digwydd. Parchwch bob arwydd diogelwch.

Respect other trail users at all times.
Parchwch holl ddefnyddwyr eraill y llwybr ar bob achlysur.

Follow the Countryside Code at all times and ride responsibly.
Dilynwch y Cod Cefn Gwlad ar bob achlysur a marchogwch yn gyfrifol.

In many places this trail uses permissive routes, not public rights of way and may be diverted or closed without prior notice. Please visit www.loopsandkinks.co.uk for information on route closures and diversions.

Mae'r llwybr yn defnyddio llwybrau caniatoal mewn nifer o lefydd, yn hytrach na llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus, ac mae'n bosibl bydd y llwybr yn cael ei ailgyfeirio neu'n cael ei gau heb rybudd o flaen llaw. Am fwy o wybodaeth am ailgyfeirio a chau llwybrau, ewch i www.loopsandkinks.co.uk

> The BHS recommends that before undertaking any of this route, both horse and rider should be insured against public liability. BHS membership offers a range of benefits including insurance. Visit www.bhs.org.uk or call 02476 840 506 to join.

Be Smart – Be Seen – Be Safe – always wear high visibility gear even when riding off road.

Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) yn argymhell yswirio'r ceffyl a'r marchog yn erbyn atebolrwydd cyhoeddus cyn cychwyn ar unrhyw ran o'r llwybr hwn. Mae bod yn aelod o Gymdeithas Ceffylau Prydain yn cynnig amrywiaeth o fuddion gan gynnwys yswiriant. Ewch i www.bhs.org.uk neu ffoniwch 02476 840 506 i ymuno.

Byddwch yn Graff – Byddwch yn Siŵr o Gael eich Gweld – Byddwch yn Ddiogel – cofiwch wisgo dillad llachar, hyd yn oed wrth farchogaeth oddi ar y ffordd.

> Briars Bridleways / Llwybrau Ceffylau Briars

Briars Bridleways was set up by a group of horse riders to address the lack of horse riding provision in the area. The group is working with various agencies including the Local Authority, Groundwork Merthyr & Rhondda Cynon Taff, British Horse Society, and Forestry Commission Wales to develop new and improve existing provision for horse riders in Rhondda Cynon Taff.

Briars Bridleways is a constituted voluntary organisation that is affiliated to the BHS. They encourage responsible riding and consideration to other users of public rights of way.

For further details please contact the group at:
www.briarsbridleways.synthasite.com

Sefydlwyd Llwybrau Ceffylau Briars gan grŵp o farchogion er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth marchogaeth. Mae'r grŵp yn cydweithio â nifer o asiantaethau, Groundwork Merthyr a Rhondda Cynon Taff, gan gynnwys yr awdurdod lleol, Cymdeithas Ceffylau Prydain a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i ddatblygu llwybrau newydd, a gwella llwybrau sydd eisoes yn bodoli, i farchogion Rhondda Cynon Taf.

Mae Llwybrau Ceffylau Briars yn sefydliad cyfansoddol gwirfoddol, sydd wedi'i gysylltu â Chymdeithas Ceffylau Prydain. Rydym yn annog marchogaeth cyfrifol ac ystyriaeth i ddefnyddwyr eraill y llwybrau cyhoeddus.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r grŵp trwy:
www.briarsbridleways.synthasite.com

> Contact Information / Manylion Cyswllt

Groundwork Merthyr and Rhondda Cynon Taff: **01685 883 880**
Groundwork Merthyr a Rhondda Cynon Taf: **01685 883 880**

Rhondda Cynon Taff Rights of Way Office: **01443 400 563**
Swyddfa Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf: **01443 400 563**

Forestry Commission Wales: **0300 0680 300**
Comisiwn Coedwigaeth Cymru: **0300 0680 300**



This map is based upon Ordnance Survey material. © Crown Copyright. Groundwork Merthyr and Rhondda Cynon Taff. License Number: 100037006.

Y LLAWLYFR AR GAEL NAWR I'W BRYNU AR LEIN



OS EXPLORER Maps / Water Resistant / Tear Resistant Pages
Mapiau OS EXPLORER/ Gwrth-ddŵr / Tudalennau Gwrth-rwygo

Who was involved Pwy Oedd Ynglwm

This trail has been developed by Groundwork Merthyr and Rhondda Cynon Taff as part of the Loops and Links Trails network; in partnership with the Briars Bridleways group, supported by Forestry Commission Wales and Rhondda Cynon Taff Countryside Section. The project was funded by the Heads of the Valleys programme. Datblygwyd y llwybr gan Groundwork Merthyr a Rhondda Cynon Taf fel rhan o rwydwaith Llwybrau Cylchdeithiau a Dolenni; gyda grŵp Llwybrau Ceffylau Briars, a chefnogaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Adran Cefn Gwlad Rhondda Cynon Taf. Ariannwyd y prosiect gan raglen Blaenau'r Cymoedd.



Loops and Links Cylchdeithiau A Dolenni

The Loops and Links Trails are a series of routes designed by Groundwork Merthyr and Rhondda Cynon Taff for walkers, mountain bikers and horse riders throughout Merthyr Tydfil and the northern half of Rhondda Cynon Taff.

For further details, please visit www.loopsandlinks.co.uk

Cyfes o lwybrau wedi'u dylunio gan Groundwork Merthyr a Rhondda Cynon Taf i gerddwyr, beicwyr mynydd a marchogion ar draws Merthyr Tydfil a hanner gogleddol Rhondda Cynon Taf yw'r Llwybrau Cylchdeithiau a Dolenni. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.loopsandlinks.co.uk



A4058 To Pontypridd / A470

A4119 To Tonyrefail / M4